# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG**

Dyddiad ac Amser

**2.00 y.h., DYDD MAWRTH, 15FED MAI, 2018**

Lleoliad

**Siambr Dafydd Orwig, Swyddfa'r Cyngor,**

**Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 4 Mai 2018)

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG

**AELODAETH (3)**

Y Cynghorwyr

John Brynmor Hughes

Peter Read (Cadeirydd)

Elfed Wyn Williams

Edgar Wyn Owen (wrth gefn)

**Aelod Lleol**

Y Cynghorydd Annwen Hughes

**Aelod Ward Gyffiniol**

Y Cynghorydd Eryl Jones-Williams

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. CAIS AM DRWYDDED EIDDO 5 - 10

Parafest, Canolfan Awyrofod Eryri, Llain Awyr Llanbedr

I ystyried y cais uchod

## 5. CAIS AM DRWYDDED EIDDO 11 - 14

CLUB DB Ltd, 318 Stryd Fawr, Bangor

I ystyried y cais uchod

**<u>TREFN MEWN GWRANDAWIADAU TRWYDDEDU</u>**

1. Adroddiad ysgrifenedig gan yr Adain Trwyddedu gydag argymhelliad.
2. Gall aelodau’r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
3. Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
4. Gall yr ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd ymhelaethu ar ei gais ac yna galw tystion
5. Gall aelodau’r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i’r ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd
6. Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall cynrychiolydd y Cyngor ofyn cwestiynau i’r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd
7. Gwahoddiad i bob Ymgynghorai gefnogi unrhyw sylwadau ysgrifenedig
8. Gall cynrychiolydd y Cyngor a’r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd grynhoi eu hachos.

**Atgoffir oll o’r pedwar egwyddor i’w hystyried wrth benderfynu ar y ceisiadau, sef:**

**1) Rhwystro Trosedd ac Anrhefn;**

**2) Diogelwch y Cyhoedd;**

**3) Rhwystro Niwsans Cyhoeddus; ac**

**4) Amddiffyn plant rhag niwed:**

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **IS -BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG** |
| **DYDDIAD:** | **15 MAI 2018** |
| **TEITL:** | **CAIS AM DRWYDDED EIDDO – PARAFEST, CANOLFAN AWYROFOD ERYRI, LLAIN AWYR LLANBEDR** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH AMGYLCHEDD** |

**CAIS A DDERBYNIWYD**

Atodir cais am drwydded eiddo gan Mark Meadows o Greenfield Events Ltd.135 Gladstone Street, Winsford, Cheshire CW7 4AU ar gyfer gŵyl 'Parafest' fydd yn cael ei leoli ar dir Canolfan Awyrofod Eryri ar y Llain awyr yn Llanbedr, LL452PX.
Bwriad yr ymgeisydd yw cynnal gŵyl flynyddol paragleidio ynghyd a digwyddiad cymdeithasol a gweithgareddau eraill yn ymwneud a pharagleidio i beilotiaid ai teuluoedd. Fe fwriedir cynnal gweithgareddau trwyddedig sydd yn agored i'r Cyhoedd fel rhan o'r ŵyl, megis cerddoriaeth fyw, a cherddoriaeth wedi ei recordio. Bwriedir cynnig gwerthiant alcohol a lluniaeth hwyr y nos fel rhan o'r arlwy - yn unol â'r amseroedd a nodir yn y tabl isod. Bwriedir cynnal yr ŵyl ar y penwythnos olaf ym mis Gorffennaf. Fe gynigir safle gwersylla i fynychwyr yr ŵyl ar y safle.

Mae swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu yn fodlon fod tystiolaeth ddigonol fod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion y Ddeddf Drwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol ac felly yn ddilys. Oherwydd bod sylwadau sydd yn berthnasol i'r amcanion trwyddedu wedi ei wneud ar y cais; fe gyflwynir y cais er ystyriaeth yr Is - Bwyllgor hwn.

Gweler y tabl amgaeedig am fanylion yr oriau arfaethedig.

| GWEITHGAREDDAU TRWYDDEDIG | TRWYDDED ARFAETHEDIG |
|---|---|
| **Cyflenwi alcohol – Ar ac oddi ar y r eiddo** | **Cyflenwi Alcohol/Supply of Alcohol - Allanol & Dan Do/Outdoors & Indoors**<br><br>Dydd Gwener/Friday 12:00 – 00:30 Dan do/Indoors<br>Dydd Sadwrn/Saturday 12:00 – 00:30 Dan do/Indoors<br><br>Dydd Iau/Thursday 12:00 – 23:00 Allanol/Outdoors<br>Dydd Gwener/Friday 12:00 – 23:00 Allanol/Outdoors<br>Dydd Sadwrn/Saturday 12:00 – 23:00 Allanol/Outdoors<br>Dydd Sul/Sunday 12:00 – 17:00 |
| **Cerddoriaeth Fyw/Live Music -** | **Cerddoriaeth Fyw/Live Music - Allanol & Dan Do/Outdoors & Indoors**<br>Dydd Gwener/Friday 12:00-01:00 Dan do/Indoors<br>Dydd Sadwrn/Saturday 12:00-01:00 Dan Do/Indoors<br><br>Dydd Gwener/Friday 12:00 – 23:00 Allanol/Outdoors<br>Dydd Sadwrn/Saturday 12:00 – 23:00 Allanol/Outdoors |
| **Cerddoriaeth wedi ei recordio** | **Cerddoriaeth wedi'i Recordio/Recorded Music - Allanol & Dan Do/Outdoors & Indoors**<br><br>Dydd Gwener/Friday 12:00 – 01:00 Dan do/Indoors<br>Dydd Sadwrn/Saturday 12:00 – 01:00 Dan do/Indoors |

| | |
|---|---|
| | Dydd Iau/Thursday 10:00 – 23:00 Allanol/Outdoors<br>Dydd Gwener/Friday 10:00 – 23:00 Allanol/Outdoors<br>Dydd Sul/Sunday 10:00 – 18:00 Allanol/Outdoors |
| **Lluniaeth Hwyr y Nos/Late Night Refreshments -** | **Lluniaeth Hwyr y Nos/Late Night Refreshments - Allanol/Outdoors**<br>Dydd Iau/Thursday 23:00-00:00<br>Dydd Gwener/Friday 23:00-00:00<br>Dydd Sadwrn/Saturday 23:00-00:00 |
| **Oriau agor a chau i'r Cyhoedd** | **Oriau Agor / Opening Hours:**<br>Dydd Iau/Thursday 12:00-00:00<br>Dydd Gwener/Friday 12:00-01:00<br>Dydd Sadwrn/Saturday 12:00-01:00<br>Dydd Sul/Sunday 07:00 – 18:00 |

**<u>Mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu</u>**

- Rheolaeth gadarn a hyfforddiant i staff
- Bwriedir gweithredu polisi Her 21 wrth werthu alcohol ar yr eiddo
- Fe fydd ymwybyddiaeth ymysg staff am arwyddion fod unigolion yn gwerthu a chymryd cyffuriau ar y safle
- Fe fydd cydymffurfiad gyda deddfwriaeth iechyd a diogelwch
- Gweithredir yn unol â'r Asesiad Risg sydd wedi ei greu ar gyfer yr ŵyl - ac yn unol â'r fersiwn terfynol o'r Cynllun Rheoli Digwyddiad fydd yn cael ei gymeradwyo gan y Grŵp Ymgynghorol Diogelwch
- Staff diogelwch awdurdodedig gan y Security Industry Authority (SIA)
- Ni fydd ymddygiad gwrth gymdeithasol yn cael ei oddef
- Ni chyflenwir alcohol i gwsmeriaid sydd wedi meddwi.
- Darpariaeth o lefel digonol o oleuo i hyrwyddo'r amcan trwyddedu o ddiogelwch y cyhoedd
- Fe fydd darpariaeth gwasanaeth meddygol ar y safle
- Dim gwydr ar y safle
- Bwriedir gofyn i bob masnachwr bwyd fod wedi cofrestru gydag Awdurdod Lleol ac wedi derbyn sgôr hylendid bwyd o 3 neu uwch
- Cysylltu gyda Dŵr Cymru i drefnu cysylltiad i'r cyflenwad cyhoeddus a chydymffurfio yn llawn gyda darpariaethau statudol perthnasol i ddiogelu cyflenwad dwr.
- Bwriedir cydymffurfio gyda deddfwriaeth Iechyd amgylchedd mewn perthynas â niwsans cyhoeddus - ac fe fydd y gerddoriaeth fyw ac wedi recordio yn cael ei fonitro yn unol â chytundeb gyda'r Uned Iechyd Amgylchedd fydd yn cael ei gynnwys yn y Cynllun Rheoli Sŵn
- Ni fydd y Cyhoedd yn cael mynediad i'r safe tu hwnt i oriau agor.

Gweler manylion llawn y mesurau a argymhellir yn adran **M** o'r cais

## CAIS BLAENOROL

Fe gyflwynwyd cais yn flaenorol gan yr ymgeisydd ym mis Ionawr. Bwriadwyd dod a'r cais gerbron y Pwyllgor hwn yn ystod mis Mawrth, gan fod sylwadau a gwrthwynebiadau wedi eu derbyn ar y cais. Ni fu i'r cais gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor er penderfyniad ar y pryd gan fod tystiolaeth wedi ei dderbyn nad oedd y cais wedi ei hysbysebu yn unol â'r gofynion cyfreithiol.

Mae'r cais cyfredol sydd ger eich bron yn ddilys; a gallaf gadarnhau fod rhai newidiadau wedi eu cyflwyno yn y cais gan yr ymgeisydd. Er mwyn ceisio ymateb i bryderon a godwyd yn ystod y broses ymgynghori ar y cais gwreiddiol; mae'r ymgeisydd y tro hwn yn ceisio caniatâd i gynnal gweithgareddau trwyddedig ar yr hwyraf tan 01:00 y bore ar y nos Wener a nos Sadwrn yn hytrach na 03:00 y bore fel y gofynnwyd amdano yn y cais gwreiddiol.

## YMGYNGHORIAD

Fe ymgynghorwyd ar y cais, ac fe dderbyniwyd ymatebion fel a ganlyn -

| YMATEBION | SYLWADAU |
|---|---|
| | |
| Heddlu Gogledd Cymru | E bost - sylwadau |
| Gwasanaeth Tan ac Achub | E bost - sylwadau |
| Cynghorwyr lleol | 2 E bost – sylwadau a gwrthwynebiad |
| Cyngor Cymuned Llanbedr | E bost - sylwadau |
| Safonau Masnach – Cyngor Gwynedd | E bost - sylwadau |
| Iechyd Amgylchedd, Gwarchod y Cyhoedd Cyngor Gwynedd | E bost – sylwadau, ac argymell amodau |
| Busnesau, preswylwyr ac ymwelwyr cyfagos | 2 E bost yn gwrthwynebu |
| | |

Cafwyd 9 o e byst – 4 yn gwrthwynebu y cais , a sylwadau ac argymhellion gan y gweddill. Gwnaethpwyd y sylwadau mewn perthynas â'r 4 amcan trwyddedu sef -

- Atal trosedd ac anrhefn
- Diogelwch y Cyhoedd
- Diogelu plant rhag niwed
- Atal niwsans cyhoeddus

**Sylwadau Heddlu Gogledd Cymru**
Nododd yr Heddlu nad oedd ganddynt dystiolaeth i wrthwynebu y cais; yn enwedig gan fod yr oriau arfaethedig ar gyfer adloniant a gwerthiant alcohol wedi eu cwtogi o'r hyn a ymddangosodd y cais gwreiddiol..

**Sylwadau Gwasanaeth Tan ac Achub**
Nodwyd fod angen mwy o fanylion mewn perthynas â'r rhagofalon tan. Yn benodol, gofynwyd am fwy o wybodaeth am niferoedd disgwyliedig yn yr ardal fewnol trwyddedig; manylion system rhybudd tan; a manylion ail ddihangfa dan ar gyfer yr adeilad.

**Gwrthwynebiadau - Aelodau lleol a Chyngor Cymuned Llanbedr**

Nodwyd nad oedd gwrthwynebiad mewn egwyddor i'r ŵyl - a bod y Cyngor Cymuned a'r Cynghorydd Sir yn cefnogi cyfraniad posib yr ŵyl i'r economi leol. Er hyn , fe nodwyd pryderon parthed y materion isod sydd yn berthnasol i'r amcanion trwyddedu - sef

1. Croesawir fod oriau arfaethedig ar gyfer adloniant wedi eu cwtogi; ond fod angen sicrwydd fod y sŵn yn mynd i gael ei reoli a'i fonitro i wneud yn siŵr nad yw yn tarfu ar breswylwyr ac ymwelwyr.
2. Datganwyd fod y cais yn cael ei gefnogi fel digwyddiad unigryw am y flwyddyn hon; ond nad oedd cefnogaeth i ganiatáu trwydded i ddigwyddiad blynyddol.
3. Nodwyd fod Llanbedr yn ardal dawel , a bod yr ŵyl yn cael ei chynnal ar benwythnos yn ystod cyfnod prysuraf y tymor ymwelwyr. Datganwyd fod pryderon y byddai sŵn yn effeithio pobl sydd yn gwersylla mewn sawl lleoliad, ac y byddai'r sŵn yn cario i fyny i'r pentref hefyd.
4. Argymhellwyd fod y gweithgareddau trwyddedig yn dod i ben am 23:00 yr hwyr yn ystod nosweithiau'r ŵyl.
5. Mynegwyd pryderon am effaith pwysau traffig ychwanegol ar gyfer yr ŵyl - yn ystod cyfnod o brysurdeb y tymor ymwelwyr - yn enwedig ar y bont yn Llanbedr
6. Nodwyd yn ogystal fod y pwysau traffig yn cynyddu'r risg o'r gwasanaethau brys fethu cael mynediad safle a lleoliadau cyfagos - gan nad oes unrhyw ffordd arall y gall y gwasanaethau hyn gael mynediad i'r lleoliad.

**Sylwadau – Gwasanaeth Safonau Masnach , Cyngor Gwynedd**

Nodwyd fod trwydded ar y safle maes awyr o ran tanc petrol sydd wedi ei leoli er pwrpas cyflenwi tanwydd i awyrennau sydd yn defnyddio'r safle. Nodwyd fod rhaid ystyried lleoliad y tanc wrth gynnal asesiad risg cynhwysfawr o'r safe.

**Sylwadau ac Argymhelliad amodau – Gwasanaeth Iechyd Amgylchedd, Gwarchod y Cyhoedd Cyngor Gwynedd**

Nodir argymhelliad i sŵn gael ei reoli drwy gydol y gweithgareddau arfaethedig.
Argymhellir sawl amod penodol o ran ceisio cyfyngu ardrawiad y sŵn ar boblogaeth gyfagos gan gynnwys -

a) Trefnwyr i gyflogi peiriannydd/ymgynghorydd arbenigol cymwys mewn acwsteg i sicrhau cydymffurfiad ag amodau'r drwydded
b) Amseroedd hedfan y paramotors i'w cytuno gyda'r swyddog Iechyd Amgylchedd
c) Ymgynghorydd sŵn i gynnal arolwg sŵn cefndirol mewn preswylfeydd sensitif cyfagos - lleoliadau i'w cytuno gyda'r swyddog Iechyd yr Amgylchedd
d) Trefnwyr i hysbysu trigolion yn ysgrifenedig am ddyddiadau am amseroedd gweithgareddau gan gynnwys profion lefelau sŵn 20 diwrnod cyn yr ŵyl. Fe fydd hefyd angen darparu manylion llinell ffon fydd ar gael yn ystod yr ŵyl i gwyno os yw'r sŵn yn amharu ar drigolion
e) Cynnal profion lledaeniad sŵn 2 awr cyn cychwyn y digwyddiad
f) Ymgynghorydd sŵn i drafod lleoliadau gorau uchelseinyddion y systemau sŵn gyda'r peirianwyr er mwyn lleihau'r ardrawiad sŵn.
g) Dim cerddoriaeth chwyddedig ar y maes gwersylla ar y safle
h) Lefelau sŵn penodol i'w cytuno i fyny i 23:00 gyda gostyngiad yn y lefelau a ganiateir rhwng 23:00 a 1:00 y bore.
i) Fe fydd angen monitro yn unol â safonau cydnabyddedig drwy gydol y digwyddiad. Fe fydd rhaid i'r ymgynghorydd sŵn gysylltu â'r peiriannydd sain yn syth i sicrhau eu bod yn cymryd camau rheoli lle mae lefelau sŵn yn uwch na'r lefelau a gytunir ar amodau'r drwydded.

j) Fe fydd angen sicrhau fod y canlyniadau monitro ar gael i Iechyd yr Amgylchedd trwy gydol yr ŵyl
k) Argymhellir amod i baratoi adroddiad sŵn drafft i Iechyd Amgylchedd 4 wythnos yn dilyn yr ŵyl.

**Gwrthwynebiadau – trigolion lleol**

Codwyd y pwyntiau canlynol yn yr ohebiaeth a dderbyniwyd ar y cais a chyfeiriwyd hefyd at bwyntiau a wnaethpwyd yn y sylwadau ar y cais gwreiddiol gan gynnwys -

1. Mae'r gwrthwynebwyr yn nodi pryderon fod ardal Llanbedr yn ddistaw, a bod ymwelwyr a thrigolion yn preswylio yno oherwydd y llonyddwch.
2. Nodir nad oes ymgynghoriad /cyfarfodydd cyhoeddus wedi eu cynnal rhwng yr ymgeisydd a busnesau/trigolion lleol.
3. Nodir fod tystiolaeth eisoes fod sŵn cerddoriaeth o ddigwyddiadau mawr sydd yn cael eu cynnal yn yr awyr agored yn cario ymhell - megis pan gynhelir Gŵyl Rhif 6 a phan gynhaliwyd Wakestock yn y gorffennol.
4. Noder nad yw'r Hanger awyrenau a fwriedir ei ddefnyddio ar gyfer cerddoriaeth a gwerthu alcohol hyd at 1 y bore wedi ei chynllunio na'i adeiladu er mwyn lleihau ardrawiad sŵn mewn unrhyw ffordd.
5. Mae ymatebwyr sydd yn cynrychioli busnesau gwersylla neu Unedau gwyliau yn nodi fod ganddynt bolisïau dim sŵn o gwbl ar ôl 23:00 ar eu safleoedd - ac y bydd unrhyw sŵn yn cael effaith ar ymwelwyr i'r safleoedd hyn.
6. Nodir fod preswylfeydd gwyliau a meysydd gwersylla cyfagos yn mynd i fod yn llawn o gwsmeriaid; ar benwythnos prysur yn ystod yr Haf. Datganir pryderon fod angen sicrhau diogelwch y cyhoedd mewn perthynas â'r gweithgareddau hedfan.
7. Datganir pryder nad oes unrhyw fanylion wedi eu rhoi i breswylwyr cyfagos ynglŷn â rhagofalon sŵn
8. Mae un ymatebydd wedi cadarnhau iddo dderbyn tystiolaeth gan Gyngor Cymuned Caerwys fod yr ŵyl wedi achosi amryw o gwynion sŵn pan gynhaliwyd yr un digwyddiad yn yr ardal yn 2016 a 2017.
9. Datganir pryderon fod diogelwch y Cyhoedd yn cael eu tanseilio oherwydd y traffig ar ffyrdd mynedfa cyfyng yn ystod cyfnod prysur.
10. Nodir pryder fod y digwyddiad yn mynd i gyfyngu mynediad gwasanaethau brys i leoliadau cyfagos.
11. Mae un ymatebydd yn nodi pryder fod y digwyddiad yn mynd i greu trafferthion gyda phwysedd y cyflenwad dwr yn yr ardal - gan y bydd angen cysylltu i'r cyflenwad cyhoeddus.
12. Ceir cyfeiriadau at gymalau perthnasol o'r Datganiad o Bolisi Trwyddedu'r Cyngor gan un ymatebydd.
13. Cyfeirir at wybodaeth ar gyfryngau cymdeithasol sydd yn awgrymu y bydd llwyfan ychwanegol yn cael ei leoli yn yr Hanger , ac y bydd y gerddoriaeth yn mynd yn ei flaen tan yr oriau man.
14. Mae'r ymatebwyr yn gofyn i'r sŵn gael ei fonitro yn rhagweithiol gan Swyddogion y Cyngor; er mwyn sicrhau gweithrediad os oes tor amod a chwynion sŵn. Nodir y dylid sicrhau fod y trefnydd yn talu am wasanaeth y swyddogion Gwarchod y Cyhoedd yn hyn o beth.

Gweler atodiad yr adroddiad am fanylion llawn y gwrthwynebiadau a dderbyniwyd .

**Cyd-destun polisi – Datganiad o Bolisi Trwyddedu Cyngor Gwynedd 2015 - 2020**

Mae'n ofynnol ystyried Datganiad o Bolisi Trwyddedu cyfredol y cyngor ( gweler atodiad ) wrth wneud penderfyniad ar gais am drwydded eiddo trwyddedig. Mae'r Polisi yn annog ystyriaeth yn

naturiol o unrhyw agweddau sydd yn debygol o danseilio'r 4 amcan trwyddedu; ond yn ogystal anogir ystyriaeth o ffactorau ehangach.
Tynnir sylw'r pwyllgor hwn at gymal 3.0.6 a 3.0.7o'r Polisi sef -

> *3.0.6 "Mae'r awdurdod trwyddedu'n cydnabod bod y diwydiant adloniant yng Ngwynedd yn cyfrannu at yr economi leol. Mae'n denu twristiaid ac ymwelwyr, yn gwneud trefi a chymunedau bywiog ac yn gyflogwr mawr. Mae disgwyliad cyfiawn gan feddianwyr masnachol eiddo hefyd o amgylchedd sydd yn atyniadol ac yn gynaliadwy ar gyfer eu busnesau. Ond rhaid cael cydbwysedd gydag anghenion y boblogaeth breswyl – mae dyletswydd ar yr awdurdod trwyddedu i warchod mwynderau'r boblogaeth.*

> 3.0.7 "*Bydd y Cyngor hefyd yn rhoi sylw i ystyriaethau ehangach sydd yn effeithio ar fwynderau unrhyw ardal. Mae'r rhain yn cynnwys sbwriel a baeddu, sŵn, trosedd ar y stryd a chapasiti isadeiledd y sir, adnoddau ac adnoddau'r Heddlu i ymdopi a'r mewnlifiad o ymwelwyr, yn enwedig yn ystod y nos*"

O safbwynt yr amcan trwyddedu o atal niwsans cyhoeddus mae'r polisi yn gofyn ystyriaeth fel a ganlyn

> *3.3.4 "Mae'r awdurdod trwyddedu wedi'i ymrwymo i sicrhau nad yw mwynderau ac amgylchedd byw a gweithio pobl eraill sydd yn byw a gweithio yn ardal yr eiddo trwyddedig dan fygythiad."*

> *3.3.5 "Wrth ystyried effaith bosib eiddo trwyddedig ar yr ardal gyfagos, ystyrir yr hyn a ganlyn:*
> - *y gweithgareddau trwyddedig y gwneir cais drostynt*
> - *yr oriau gweithredu y gwneir cais amdanynt*
> - *capasiti'r eiddo*
> - *cymeriad yr ardal, ac*
> - *agosrwydd i breswylwyr lleol."*

**<u>ARGYMHELLIAD</u>**

Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y cais yn unol â gofynion y Ddeddf Trwyddedu 2003; a Datganiad o Bolisi Trwyddedu'r Cyngor.

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **IS -BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG** |
| **DYDDIAD:** | **15 MAI 2018** |
| **TEITL:** | **CAIS AMRYWIAD TRWYDDED EIDDO – CLUB DB LTD. 318 STRYD FAWR , BANGOR** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH AMGYLCHEDD** |

**CAIS A DDERBYNIWYD**

Atodir cais am amrywiad o drwydded eiddo Club Db, 318 Stryd Fawr , Bangor LL57 1YA, gan Mr Peter Hennessey.
Bwriedir ceisio am ganiatâd i ychwanegu'r gweithgareddau trwyddedig o ddangos ffilmiau, dramâu neu gynnal perfformiadau dawns ar yr eiddo. Gofynnir hefyd am ymestyn oriau agor yr eiddo i 02:30 ar nos Wener a nos Sadwrn. Bwriedir hefyd cynnal cerddoriaeth fyw a cherddoriaeth wedi ei recordio am awr yn ychwanegol, hyd at 02:30 ar nos Wener a nos Sadwrn, a hanner awr yn ychwanegol, hyd at 02:00 weddill yr wythnos. Bwriedir ymestyn oriau gwerthu alcohol o dri chwarter awr i 02:15 ar nos Wener a nos Sadwrn. Gofynnir hefyd am hanner awr yn ychwanegol ar Suliau Gŵyl y Banc, a than 05:30 ar nos Calan.
Mae swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu yn fodlon fod tystiolaeth ddigonol fod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion y Ddeddf Drwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol ac felly yn ddilys. Oherwydd bod sylwadau sydd yn berthnasol i'r amcanion trwyddedu wedi ei wneud ar y cais; fe gyflwynir y cais er ystyriaeth yr Is - Bwyllgor hwn.

Gweler y tabl amgaeedig am fanylion yr oriau arfaethedig.

| Trwydded Presenol/Current Licence | Trwydded Arfaethedig/Proposed Licence |
|---|---|
| **Oriau agor yr eiddo**<br>**The opening hours of the premises**<br>Dydd Llun/Monday 11:00-02:00<br>Dydd Mawrth/Tuesday 11:00-02:00<br>Dydd Mercher/Wednesday 11:00-02:00<br>Dydd Iau/Thursday 11:00-02:00<br>Dydd Gwener/Friday 11:00-02:00<br>Dydd Sadwrn/Saturday 11:00-02:00<br>Dydd Sul/Sunday 11:00-02:00 | **Oriau agor yr eiddo**<br>**The opening hours of the premises**<br>Dydd Llun/Monday 11:00-02:00<br>Dydd Mawrth/Tuesday 11:00-02:00<br>Dydd Mercher/Wednesday 11:00-02:00<br>Dydd Iau/Thursday 11:00-02:00<br>Dydd Gwener/Friday 11:00-02:30<br>Dydd Sadwrn/Saturday 11:00-02:30<br>Dydd Sul/Sunday 11:00-02:00 |
| **Cyflenwi Alcohol/Supply of Alcohol - Ar ac Oddi ar yr Eiddo/On and Off Premises**<br>Dydd Llun/Monday 11:00-01:30<br>Dydd Mawrth/Tuesday 11:00-01:30<br>Dydd Mercher/Wednesday 11:00-01:30<br>Dydd Iau/Thursday 11:00-01:30<br>Dydd Gwener/Friday 11:00-01:30<br>Dydd Sadwrn/Saturday 11:00-01:30<br>Dydd Sul/Sunday 11:00-01:30 | **Cyflenwi Alcohol/Supply of Alcohol - Ar ac Oddi ar yr Eiddo/On and Off Premises**<br>Dydd Llun/Monday 11:00-01:45<br>Dydd Mawrth/Tuesday 11:00-01:45<br>Dydd Mercher/Wednesday 11:00-01:45<br>Dydd Iau/Thursday 11:00-01:45<br>Dydd Gwener/Friday 11:00-02:15<br>Dydd Sadwrn/Saturday 11:00-02:15<br>Dydd Sul/Sunday 11:00-01:45 |
| **Lluniaeth Hwyr y Nos/Late Night Refreshments - Dan Do/Indoors**<br>Dydd Llun/Monday 23:00-01:30<br>Dydd Mawrth/Tuesday 23:00-01:30<br>Dydd Mercher/Wednesday 23:00-01:30<br>Dydd Iau/Thursday 23:00-01:30<br>Dydd Gwener/Friday 23:00-01:30<br>Dydd Sadwrn/Saturday 23:00-01:30<br>Dydd Sul/Sunday 23:00-01:30 | **Lluniaeth Hwyr y Nos/Late Night Refreshments - Dan Do/Indoors**<br>Dydd Llun/Monday 23:00-02:00<br>Dydd Mawrth/Tuesday 23:00-02:00<br>Dydd Mercher/Wednesday 23:00-02:00<br>Dydd Iau/Thursday 23:00-02:00<br>Dydd Gwener/Friday 23:00-02:30<br>Dydd Sadwrn/Saturday 23:00-02:30<br>Dydd Sul/Sunday 23:00-02:00 |

| | |
|---|---|
| **Cerddoriaeth wedi'i Recordio/Recorded Music - Dan Do/Indoors**<br>Dydd Llun/Monday 11:00-01:30<br>Dydd Mawrth/Tuesday 11:00-01:30<br>Dydd Mercher/Wednesday 11:00-01:30<br>Dydd Iau/Thursday 11:00-01:30<br>Dydd Gwener/Friday 11:00-01:30<br>Dydd Sadwrn/Saturday 11:00-01:30<br>Dydd Sul/Sunday 11:00-01:30<br><br>**Cerddoriaeth Fyw/Live Music - Dan Do/Indoors**<br>Dydd Llun/Monday 11:00-01:30<br>Dydd Mawrth/Tuesday 11:00-01:30<br>Dydd Mercher/Wednesday 11:00-01:30<br>Dydd Iau/Thursday 11:00-01:30<br>Dydd Gwener/Friday 11:00-01:30<br>Dydd Sadwrn/Saturday 11:00-01:30<br>Dydd Sul/Sunday 11:00-01:30 | **Cerddoriaeth wedi'i Recordio/Recorded Music - Dan Do/Indoors**<br>Dydd Llun/Monday 11:00-02:00<br>Dydd Mawrth/Tuesday 11:00-02:00<br>Dydd Mercher/Wednesday 11:00-02:00<br>Dydd Iau/Thursday 11:00-02:00<br>Dydd Gwener/Friday 11:00-02:30<br>Dydd Sadwrn/Saturday 11:00-02:30<br>Dydd Sul/Sunday 11:00-02:00<br><br>**Cerddoriaeth Fyw/Live Music - Dan Do/Indoors**<br>Dydd Llun/Monday 11:00-02:00<br>Dydd Mawrth/Tuesday 11:00-02:00<br>Dydd Mercher/Wednesday 11:00-02:00<br>Dydd Iau/Thursday 11:00-02:00<br>Dydd Gwener/Friday 11:00-02:30<br>Dydd Sadwrn/Saturday 11:00-02:30<br>Dydd Sul/Sunday 11:00-02:00<br><br>**Dramau/Plays – Dan Do/Indoors**<br>Dydd Llun/Monday 11:00-23:00<br>Dydd Mawrth/Tuesday 11:00-23:00<br>Dydd Mercher/Wednesday 11:00-23:00<br>Dydd Iau/Thursday 11:00-23:00<br>Dydd Gwener/Friday 11:00-23:00<br>Dydd Sadwrn/Saturday 11:00-23:00<br>Dydd Sul/Sunday 11:00-23:00<br><br>**Ffilmiau/Films – Dan do/Indoors**<br>Dydd Llun/Monday 11:00-02:00<br>Dydd Mawrth/Tuesday 11:00-02:00<br>Dydd Mercher/Wednesday 11:00-02:00<br>Dydd Iau/Thursday 11:00-02:00<br>Dydd Gwener/Friday 11:00-02:30<br>Dydd Sadwrn/Saturday 11:00-02:30<br>Dydd Sul/Sunday 11:00-02:00<br><br>**Perfformiad Dawn/Performance of Dance- Dan do/Indoors**<br>Dydd Llun/Monday 11:00-02:00<br>Dydd Mawrth/Tuesday 11:00-02:00<br>Dydd Mercher/Wednesday 11:00-02:00<br>Dydd Iau/Thursday 11:00-02:00<br>Dydd Gwener/Friday 11:00-02:30<br>Dydd Sadwrn/Saturday 11:00-02:30<br>Dydd Sul/Sunday 11:00-02:00 |

**Mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu**

- Rhaglen hyfforddiant blynyddol i staff
- Amcanion trwyddedu a pholisïau wedi eu harddangos i staff
- Dim caniatáu mynediad i'r Clwb yn hwyr iawn
- Bwriedir gweithredu polisi Her 25 wrth werthu alcohol ar yr eiddo
- Sicrhau nad oes mynediad i gwsmeriaid sydd wedi cael gormod i yfed neu o dan ddylanwad cyffuriau

- Gweithredu Teledu Cylch Cyfyng
- Arwyddion yn gofyn i gwsmeriaid adael yn dawel.
- Fe fydd ymwybyddiaeth ymysg staff am arwyddion fod unigolion yn gwerthu a chymryd cyffuriau ar y safle
- Asesiadau risg mewn lle fydd yn cael eu hadolygu yn achlysurol
- Canllawiau rhagofalon tan
- System sain yn cael ei reoli yn awtomatig; gyda meddalwedd monitor sŵn wedi ei raglennu i ofynion y Cyngor o ran lefelau sŵn
- Fe fydd cydymffurfiad gyda deddfwriaeth iechyd a diogelwch
- Staff diogelwch awdurdodedig gan y Security Industry Authority (SIA)
- Ni fydd ymddygiad gwrth gymdeithasol yn cael ei oddef
- Darpariaeth o lefel digonol o oleuo i hyrwyddo'r amcan trwyddedu o ddiogelwch y cyhoedd

Gweler manylion llawn y mesurau a argymhellir yn adran **M** o'r cais

**YMGYNGHORIAD**

Fe ymgynghorwyd ar y cais, ac fe dderbyniwyd ymatebion fel a ganlyn -

| YMATEBION | SYLWADAU |
|---|---|
| | |
| Heddlu Gogledd Cymru | E bost - sylwadau |
| preswylwydd cyfagos | Llythyr yn gwrthwynebu |
| | |

Cafwyd 1 llythyr yn gwrthwynebu ac un e bost gan Heddlu Gogledd Cymru yn argymell amodau i'w cynnwys ar y drwydded. Gwnaethpwyd y sylwadau mewn perthynas â 2 o'r amcanion trwyddedu sef -

- Atal trosedd ac anrhefn
- Atal niwsans cyhoeddus

**Sylwadau Heddlu Gogledd Cymru**

Nododd yr Heddlu nad oedd ganddynt dystiolaeth i wrthwynebu y cais; ond fod argymhelliad i gynnwys yr amodau canlynol ar y drwydded –

1. Fod o leiaf un goruchwiliwr Drws yn cael ei gyflogi sydd wedi ei gofrestru gydag Awdurdod Diwydiant Diogelwch (SIA)o 22:00 ymlaen ar nos Wener, Sadwrn a suliau Gwyl y Banc
2. Os yw'r Goruchwyliwr Eiddo Dynodedig o'r farn nad oes angen cyflogi staff goruchwylio drysau ar y nosweithiau hyn fe fydd angen cytundeb yr Heddlu.
3. Goruchwylwyr Drysau i fonitro tu allan i'r eiddo i sicrhau nad oes cwsmeriaid yn ymgynyll o flaen yr eiddo
4. Fe fydd unrhyw gais am Rybudd Dros Dro i ymestyn oriau yn golygu fod Goruchwylwyr Drysau yn cael eu cyflogi tan oriau terfynol y cais
5. Fe fydd angen Goruchwylwyr Drysau hefyd pan gynhelir nosweithiau arbennig yn ystod yr wythnos

**Gwrthwynebiad preswylydd cyfagos**

Noder fod yr eiddo trwyddedig yn cael ei amgylchynu ar dair ochr gan Breswylfeydd. Mae'r gwrthwynebydd yn preswylio mewn un o'r adeiladau hyn ac yn cwyno fod y swn o'r eiddo trwyddedig yn achosi cryndod a swn yn y tŷ. Mae'r ymatebydd hefyd yn nodi fod swn pobl yn gweiddi, a cherbydau hefyd yn broblem yn yr ardal ger y clwb; ac mae'n bryderus y byddai canatau estyniad oriau gweithgareddau adloniant yn gwaethygu'r sefyllfa.

**ARGYMHELLIAD**

Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y cais yn unol â gofynion y Ddeddf Trwyddedu 2003; a Datganiad o Bolisi Trwyddedu'r Cyngor.